
# Cyflog ac amodau athrawon: Adborth o weithdy rhanddeiliaid mis Medi 2023

**Paratowyd ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru**

**Hydref 2023**



alma economics

# Tabl Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1
Cefndir ..... 1
Canfyddiadau allweddol ..... 1
Adborth Mentimeter ..... 3
Pa ganfyddiad oedd wedi'ch synnu fwyaf neu'n fwyaf diddorol i chi? ..... 3
Pa ganfyddiadau sy'n ymddangos yn fwyaf perthnasol i Gymru? ..... 3
Sesiwn drafod un: strwythurau cyflog ..... 5
Themâu allweddol ..... 5
Sesiwn drafod dau: amodau athrawon ac arweinwyr ..... 6
Themâu allweddol ..... 6
Casgliad ..... 8

# Cyflwyniad

## Cefndir

Ym mis Medi 2023, cyflwynodd Alma Economics ganfyddiadau ymchwil ynglŷn â'r dystiolaeth ryngwladol o gyflog ac amodau athrawon i gynrychiolwyr o chwech sefydliadau rhanddeiliaid. Roedd y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys meincnodi, dadansoddiad cydberthynas, ac astudiaeth achos o bum gwlad. Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi adborth ar yr adroddiad a gwneud sylwadau ar y canfyddiadau a oedd yn fwyaf diddorol iddynt neu a oedd wedi'u synnu fwyaf, a'r rhai a oedd yn fwyaf perthnasol i Gymru.

Ar ôl y cyflwyniad, cymerodd cyfranogwyr y gweithdy ran mewn dwy sesiwn drafod ar bynciau penodol. Fe wnaeth y sesiwn drafod gyntaf ganolbwyntio ar dystiolaeth o strwythurau cyflog o wledydd eraill, gyda chwestiynau annog fel:

- Pa wersi y gallwn ni eu dysgu gan wledydd eraill a fyddai'n gweithio'n dda yng Nghymru o ystyried yr agenda ddiwygio genedlaethol?
- A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ynglŷn â ph'un a oes opsiynau eraill ar gyfer newidiadau buddiol i strwythurau cyflog a llwybrau gyrfa cysylltiedig yng Nghymru? Os felly, beth ydynt?

Fe wnaeth yr ail sesiwn drafod ganolbwyntio ar dystiolaeth ehangach o ffactorau sy'n effeithio ar amodau athrawon ac arweinwyr, gan gynnwys cwestiynau annog fel:

- Pa ddatrysiadau ydych chi wedi'u gweld mewn mannau eraill sy'n berthnasol i Gymru? Mae rhai meysydd i'w hystyried yn cynnwys (i) llwyth gwaith, (ii) annibyniaeth ysgolion ac athrawon, (iii) natur wledig, (iv) addysgu dwyieithog a Chymraeg 2050, a (v) chontractau parhaol.

## Canfyddiadau allweddol

Cyflwynir isod y themâu a ddaeth i'r amlwg ar draws tri gweithgarwch y gweithdy.

**Llwyth gwaith ac oriau gwaith:** Roedd llwyth gwaith ac oriau gwaith yn bwnc a grybwyllwyd yn aml, a nododd y cyfranogwyr ganfyddiadau yn yr adroddiad ynglŷn â llwyth gwaith hunanadroddedig uchel athrawon yng Nghymru, a'r bwlch rhwng oriau gwaith adroddedig ac oriau gwaith statudol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at gydberthynas ganfyddedig rhwng llwyth gwaith is a gwell deilliannau dysgwyr, gan gefnogi'r farn y byddai lleihau'r llwyth gwaith ac oriau gwaith dan gontract yn arwain at fwy o amser i athrawon ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), a mwy o amser i gynllunio, paratoi, ac asesu. Yn ogystal, pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd cynnal a defnyddio canfyddiadau asesiadau o'r effaith ar lwyth gwaith wrth gynllunio ar gyfer polisïau newydd, gan fod mabwysiadu polisïau newydd yn cynyddu'r llwyth gwaith i athrawon ac arweinwyr yn aml.

**Statws proffesiynol athrawon:** Crybwyllwyd pwysigrwydd statws proffesiynol uchel i athrawon ar draws holl weithgareddau'r gweithdy. Dywedodd cyfranogwyr fod statws uchel athrawon yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol yn astudiaethau achos Singapore ac Iwerddon. Yn y sesiwn drafod gyntaf, trafododd sawl bwrdd sicrhau bod gan athrawon dosbarth yr un bri a chyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa â'r rhai hynny sy'n ceisio swyddi arweinyddiaeth. Ar draws nifer o weithgareddau'r gweithdy, ystyriwyd bod her recriwtio a chadw athrawon dawnus yn gysylltiedig â statws proffesiynol athrawon ac arweinwyr ysgolion.

**Cefnogi ysgolion bach, gwledig, a dwyieithog:** Trafodwyd yr heriau penodol sy'n wynebu ysgolion bach, gwledig, neu ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn aml. Mae astudiaethau achos o wledydd sydd wedi cefnogi'r mathau hyn o ysgolion yn llwyddiannus yn yr adroddiad yn cynnwys Gwlad Pwyl ac Estonia, sydd â phoblogaethau gwledig mawr, a Gwlad y Basg o ganlyniad i gefnogaeth gref i'r iaith Fasgeg y tu mewn a'r tu allan i'r system addysg. Roedd heriau penodol sy'n wynebu'r ysgolion hyn a amlygwyd gan y cyfranogwyr yn cynnwys recriwtio, llai o fynediad at DPP, a heriau cyllid. O ran recriwtio, gallai ysgolion gwledig gael trafferth oherwydd bod rhaid i athrawon adleoli, a gallai ysgolion cyfrwng Cymraeg gael trafferth cystadlu â sectorau eraill am siaradwyr Cymraeg. O ran cyllid, nododd y cyfranogwyr ei bod yn ddrutach cynnal ysgolion bach mewn llawer o achosion gan nad yw'r ysgolion hyn yn gallu manteisio ar arbedion maint. Roedd datrysiadau i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys cyllid fesul disgybl (fel yn achos Estonia), grant ysgolion bach, a chreu clystyrau o ysgolion gwledig, a fyddai hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio a DPP.

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno'r canfyddiadau o bob un o weithgareddau'r gweithdy yn fanylach, ochr yn ochr â safbwyntiau cynrychiolwyr o'r sefydliadau a gymerodd ran.

# Adborth Mentimeter

Ar ôl cyflwyno'r canfyddiadau, gofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdy ddweud beth oedd y canfyddiad a oedd wedi'u synnu fwyaf neu'n fwyaf diddorol iddynt, a pha rai o ganfyddiadau'r ymchwil oedd yn fwyaf perthnasol i Gymru.

## Pa ganfyddiad oedd wedi'ch synnu fwyaf neu'n fwyaf diddorol i chi?

Dywedodd ambell un fod canfyddiadau'r cyflwyniad yn cyfateb i'r hyn a ddeëllir am gyflog ac amodau athrawon, yn cyfateb i faterion a godwyd yn y gorffennol, ac yn cefnogi'r hyn a gyflwynwyd i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) yn flaenorol.

Y canfyddiad a oedd yn fwyaf diddorol i bobl neu wedi'u synnu fwyaf oedd y gyfran uchel o gynnyrch domestig gros (GDP) sy'n cael ei gwario ar addysg yng Nghymru, yn enwedig o gymharu â gwledydd eraill y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Nododd y cyfranogwyr nad yw'r gyfran uchel hon o wariant GDP yn cael ei hadlewyrchu yn yr amodau mewn ysgolion. Holodd sawl sylw faint o'r gwariant sy'n mynd tuag at gyflwyno rheng flaen, o ystyried y cymarebau myfyrwyr-athrawon uchel mewn ystafelloedd dosbarth a'r diffygion cyllidebol a gofnodwyd ar lefel ysgolion.

Canolbwyntiodd ambell sylw ar gontractau parhaol, gydag un sylw'n amlygu eu pwysigrwydd, ac un arall yn mynegi syndod ynglŷn â nifer yr athrawon yng Nghymru nad ydynt ar gontractau parhaol. Crybwyllodd dau sylw fod diffyg pwyslais ar lwyth gwaith yn yr adroddiad. Mynegodd unigolion eraill eu syndod ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng cyflog ac oriau gwaith statudol a chyflog ac oriau gwaith gwirioneddol, a chyfeiriodd eraill at rôl bri sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd addysgu yn yr astudiaethau achos.

## Pa ganfyddiadau sy'n ymddangos yn fwyaf perthnasol i Gymru?

Amlygodd sawl sylw fod canfyddiadau ynglŷn â chymarebau myfyrwyr-athrawon yn fwyaf perthnasol i Gymru. Pwysleisiodd ambell sylw fod angen i Gymru gynyddu'r pwyslais ar gymarebau myfyrwyr-athrawon, gan amlygu eu rôl wrth gynyddu cyrhaeddiad dysgwyr. Yn olaf, cyfeiriodd ambell sylw at gymarebau myfyrwyr-athrawon ar y cyd â materion cysylltiedig fel cyflog cychwynnol a heriau recriwtio.

Roedd ambell gyfranogwr o'r farn bod y canfyddiadau ynglŷn â statws cymdeithasol yn berthnasol i Gymru, hefyd. Amlygodd un cyfranogwr bwysigrwydd statws proffesiynol athrawon a gofynnodd sut gellid gwella hyn yng Nghymru. Cyfeiriodd un arall yn fwy cyffredinol at sicrhau bod athrawon yn cael eu gwerthfawrogi'n briodol, o ran cyflog a chyfleoedd hyfforddi digonol.

Ystyriwyd bod y canfyddiadau ynglŷn â'r materion sy'n wynebu ysgolion bach a gwledig yn bwysig i Gymru hefyd. Crybwyllodd dau gyfranogwr bwysigrwydd canfyddiadau ynglŷn â chyllid a gwariant ar gyfer disgyblion ac ysgolion gwledig. Roedd un cyfranogwr o'r farn bod sicrhau bod anghenion penodol cymunedau lleol yn cael eu bodloni yn berthnasol i Gymru, hefyd.

Ystyriwyd bod sawl elfen o'r astudiaethau achos ar wledydd yn berthnasol i Gymru. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at Wlad y Basg, a soniodd un am y cysylltiad rhwng llwyddiant system addysg Gwlad y

Basg a theuluoedd yn siarad Basgeg gartref. Crybwyllodd sawl cyfranogwr berfformiad cryf Estonia, gan amlygu'r model cyllido fesul disgybl. Nododd dau gyfranogwr hefyd fod gan astudiaeth achos Iwerddon ganfyddiadau a oedd yn fwyaf perthnasol i Gymru. Yn olaf, cyfeiriodd un cyfranogwr at berthnasedd model tri llwybr Singapore ar gyfer arbenigedd athrawon, gan nodi y byddai'n caniatáu i athrawon symud ymlaen yn eu gyrfa, ar yr un pryd ag aros mewn rôl yn yr ystafell ddosbarth.

Cyfeiriodd sylwadau eraill at ganfyddiadau ynglŷn â llwyth gwaith uchel athrawon yng Nghymru, yn ogystal â'r berthynas rhwng gwahaniaethau ieithyddol a bylchau mewn perfformiad yn y gwaith ymchwil.

# Sesiwn drafod un: strwythurau cyflog

## Themâu allweddol

Daeth sawl thema allweddol i'r amlwg o sesiwn drafod un, a godwyd yn ystod trafodaethau nifer o sefydliadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Camu ymlaen o fewn addysgu yn yr ystafell ddosbarth:** Trafododd bron pob un o'r byrddau y gofyniad i athrawon yng Nghymru ymgymryd â swyddi arwain neu reoli i gael cyflog uwch a chamu ymlaen yn eu gyrfa. Mae hyn yn golygu bod athrawon dawnus yn cael eu cymell i adael yr ystafell ddosbarth, a bod gan athrawon statws cymdeithasol is o gymharu ag arweinwyr neu reolwyr ysgolion. Trafodwyd y gallai mabwysiadu rhywbeth tebyg i fodel Singapore fod yn fodd o gadw athrawon dawnus mewn swyddi yn yr ystafell ddosbarth. O fewn y model hwn, gallai athrawon ddewis llwybr gyrfa o fewn addysgu, arweinyddiaeth, neu arbenigol; a gallent symud ymlaen o fewn y ffrydiau hyn. Felly, ni fyddai athrawon yn cael eu cosbi am aros mewn swyddi ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai byrddau y dylai fod hyblygrwydd i symud rhwng llwybrau gyrfa o hyd. Er bod y rhan fwyaf o'r byrddau'n cytuno ar hyn, dywedodd un bwrdd y dylai athrawon ac arweinwyr ysgolion gael eu gwobrwyo am ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb trwy swyddi arwain.

**Defnyddio Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu a lwfansau eraill:** Yn gysylltiedig â gwobrwyo addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn ddigonol, cyfeiriodd llawer o fyrddau at ddefnyddio Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu. Nododd llond dyrnaid o fyrddau y gellid esbonio'r gwahaniaeth rhwng cyflog statudol a chyflog gwirioneddol a amlygwyd yn yr adroddiad trwy ddefnyddio Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu a lwfansau eraill fel "ychwanegiadau cyflog". Holodd sawl bwrdd ai dyma'r strwythur cyflog mwyaf priodol at y dyfodol.

**Llwyth gwaith a DPP:** Trafododd sawl bwrdd y llwythi gwaith trwm sy'n wynebu athrawon ac arweinwyr, ac roedd bron pawb yn cytuno y dylai llwythi gwaith gael eu lleihau. Nododd un bwrdd fod yr adroddiad yn cyflwyno cydberthynas glir rhwng llwythi gwaith llai a deilliannau gwell. Trafododd sawl bwrdd fod llwyth gwaith is yn rhoi mwy o amser i athrawon ymgymryd â DPP a mwy o amser iddynt gynllunio, paratoi, ac asesu. Trafodwyd DPP yn fwy cyffredinol hefyd, a nododd sawl bwrdd ei bwysigrwydd, gan amlygu'r angen i DPP fod o ansawdd uchel a chael ei ariannu'n ddigonol.

**Annibyniaeth athrawon:** Cyfeiriodd ambell fwrdd at annibyniaeth athrawon ac ysgolion o ran y cwricwlwm a strwythurau cyflog. Nodwyd y gallai gwahanol lefelau annibyniaeth yn rhai o wledydd yr astudiaethau achos olygu eu bod yn fwy neu'n llai tebyg i gyd-destun Cymru. Er enghraifft, mae athrawon yng Ngwlad y Basg yn gosod eu harholiadau eu hunain sy'n rhoi mwy o annibyniaeth iddynt, tra bod papurau arholiadau yng Nghymru yn cael eu gosod gan fyrddau arholi. Yn ogystal, mae'r system addysg yn Singapore yn cael ei rheoli'n ganolog, tra bod gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol rôl mewn addysg yng Nghymru. At hynny, crybwyllodd un bwrdd yn benodol y gallai llai o annibyniaeth ysgolion a mwy o arweiniad canolog fod yn fuddiol.

# Sesiwn drafod dau: amodau athrawon ac arweinwyr

## Themâu allweddol

Fe wnaeth yr ail sesiwn drafod ganolbwyntio ar ddatrysiadau o'r dystiolaeth ryngwladol ynglŷn ag amodau athrawon ac arweinwyr, a'r hyn a allai fod yn berthnasol i Gymru. Daeth y themâu allweddol canlynol i'r amlwg yn nhrafodaethau pob bwrdd.

**Llwyth gwaith:** Y farn gyffredinol oedd bod gan athrawon ac arweinwyr lwythi gwaith uchel, a bod athrawon yn gweithio nifer uchel o oriau. Crybwyllodd sawl bwrdd bwysigrwydd cynnal asesiadau o'r effaith ar y llwyth gwaith ochr yn ochr â chyflwyno polisïau newydd. Pwysleisiodd rhai grwpiau os bydd asesiad o'r effaith ar y llwyth gwaith yn canfod y bydd polisi'n arwain at fwy o waith, bod angen i'r canfyddiadau hyn gael eu hystyried. Cyflwynwyd sawl datrysiad gwahanol i fynd i'r afael â llwythi gwaith mawr, gan gynnwys ailstrwythuro arholiadau, cynyddu ymdrechion recriwtio i wasgaru llwythi gwaith ymhlith mwy o staff, a chynnwys ymarferwyr yn fwy wrth lunio polisïau. Er na chynhwyswyd yr Alban fel astudiaeth achos yn yr adroddiad, caiff ei grybwyll fel model lle y cyfyngir ar nifer yr oriau y mae athrawon yn gweithio. Fodd bynnag, anghytunwyd ynglŷn â ph'un a yw cyfyngu ar oriau'n ddull effeithiol o leihau'r llwyth gwaith.

**Annibyniaeth ysgolion ac athrawon:** Roedd barn gymysg ynglŷn â faint o annibyniaeth y dylid ei rhoi i athrawon ac ysgolion. Amlygodd grwpiau a oedd o blaid mwy o annibyniaeth fod gan bob ysgol anghenion gwahanol, ac y dylai fod modd i addasu cwricwla i ystyried hyn. Yn ogystal, nododd rhai byrddau fod mwy o annibyniaeth yn gysylltiedig â statws proffesiynol uwch i athrawon. Fodd bynnag, nodwyd bod opsiynau i fod yn hyblyg yn gyfyngedig pan fo arian yn brin. Amlygodd y rhai hynny a rybuddiodd yn erbyn mwy o annibyniaeth y gallai arwain at anghysondebau ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol. Cytunodd y rhan fwyaf o grwpiau fod angen cydbwysedd rhwng annibyniaeth a chysondeb. Roedd y gwledydd a grybwyllwyd yn y drafodaeth fel rhai a chanddynt arferion arloesol neu lwyddiannus yn cynnwys Canada, lle mae'r system addysg yn cael ei chynnal yn annibynnol i raddau helaeth gan ymarferwyr, a Gwlad y Basg, lle mae athrawon yn gosod eu harholiadau eu hunain.

**Natur wledig:** Roedd yr holl fyrddau'n cytuno bod ysgolion gwledig yn wynebu heriau unigryw o ran cyllid, recriwtio athrawon yn barhaus, a gorfod gwasanaethu ardaloedd daearyddol mawr. Crybwyllodd un bwrdd bwysigrwydd ysgolion gwledig yn y gymuned. Er y cytunwyd ar y problemau sy'n wynebu ysgolion gwledig, anghytunwyd ar y ffordd orau o'u cefnogi. Soniodd sawl bwrdd am y posibilrwydd o grant ysgolion bach neu gymorth ychwanegol gan y llywodraeth i liniaru problemau cyllido. Crybwyllodd rhai byrddau hefyd y posibilrwydd y gallai ysgolion gwledig ffurfio clystyrau i roi cyfleoedd gwell iddynt ar gyfer DPP a hyfforddiant, ond amlygodd un bwrdd y gallai ffederasiynau danseilio cymunedau lleol.

**Addysg ddwyieithog a Chymraeg 2050:** Wrth drafod addysg ddwyieithog, y mater a drafodwyd amlaf oedd yr her sy'n gysylltiedig â recriwtio athrawon. Crybwyllodd un bwrdd fod recriwtio'n arbennig o anodd mewn pynciau uwchradd, ac yn benodol STEM. Amlygodd bwrdd arall fod angen cyflogau mwy cystadleuol i ddenu siaradwyr Cymraeg i addysgu. Soniodd ambell fwrdd am astudiaeth achos Gwlad y Basg, gan nodi bod llwyddiant y system addysg ddwyieithog yng Ngwlad y Basg wedi'i seilio'n rhannol ar y ffaith bod yr iaith yn cael ei defnyddio'n eang y tu allan i addysg, a nodwyd y gallai mabwysiadu'r Gymraeg yn ehangach liniaru problemau recriwtio. Yn olaf, trafodwyd bod angen i'r model addysgu dwyieithog yng Nghymru gael ei ddylunio'n benodol ar gyfer cyd-destun Cymru, sy'n cyfyngu ar y gallu i gymharu rhai o'r astudiaethau achos.

**Contractau parhaol:** Roedd yr holl fyrddau a drafododd gontractau parhaol yn cytuno y dylai contractau cyfnod penodol gael eu defnyddio’n achlysurol yn unig, er enghraifft, i gyflenwi ar gyfer staff ar absenoldeb mamolaeth, neu mewn achosion o salwch tymor hir neu secondiad. Crybwyllodd ambell fwrdd y berthynas rhwng cyllid cynaliadwy a chontractau parhaol. Soniwyd hefyd bod angen mwy o ymchwil i ddatgelu gwybodaeth fwy meintiol am gontractau parhaol yng Nghymru, er enghraifft p’un a yw dynion yn cael contractau parhaol yn amlach na menywod.

# Casgliad

Daeth sawl thema i'r amlwg ar draws pob un o weithgareddau'r gweithdy, ac o fewn y trafodaethau ymhlith y sefydliadau a gymerodd ran. Roedd pwyntiau trafod allweddol a gododd ar draws holl weithgareddau'r gweithdy yn cynnwys heriau yn ymwneud â llwythi gwaith ac oriau gwaith athrawon ac arweinwyr, sicrhau statws proffesiynol uchel i athrawon, a'r ffyrdd gorau o gefnogi ysgolion bach, gwledig, a dwyieithog sydd oll yn wynebu heriau unigryw.

Er y dywedodd llawer o'r cyfranogwyr fod canfyddiadau'r adroddiad yn cyd-fynd â'u dealltwriaeth flaenorol o gyflog ac amodau athrawon, amlygwyd bod sawl un o ganfyddiadau'r cyflwyniad yn peri syndod neu'n ddiddorol trwy'r gweithgaredd Mentimeter. Cyfeiriodd nifer o'r cyfranogwyr at y gyfran uchel o GDP sy'n cael ei gwario ar addysg yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill yr OECD. Soniodd sylwadau eraill am gontractau parhaol, llwyth gwaith, a'r bwlch rhwng cyflog ac oriau gwaith statudol a gwirioneddol yng Nghymru.

Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr ba rai o ganfyddiadau'r adroddiad oedd yn fwyaf perthnasol i Gymru trwy Mentimeter, daeth nifer o themâu i'r amlwg. Fe wnaeth sawl cyfranogwr sylwadau ar y canfyddiadau ynglŷn â'r gymhareb myfyrwyr-athrawon, gan nodi ei phwysigrwydd ac y dylid rhoi mwy o ystyriaeth iddi yng Nghymru. Crybwyllwyd statws athrawon mewn nifer o sylwadau, a chyfeiriodd y cyfranogwyr at statws proffesiynol uchel athrawon yn Singapore ac Iwerddon. Nodwyd bod yr heriau sy'n wynebu ysgolion bach a gwledig yn berthnasol i Gymru, ac yn enwedig canfyddiadau ynglŷn â gwahanol fodelau cyllido ar gyfer ysgolion bach. Yn olaf, amlygodd llond dyrnaid o'r cyfranogwyr berthnasedd y canfyddiadau ynglŷn ag addysg ddwyieithog o Wlad y Basg.

Roedd themâu allweddol o'r sesiwn drafod gyntaf ynglŷn â strwythurau cyflog yn cynnwys gwobrwyo athrawon dosbarth yn ddigonol, defnyddio Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu, annibyniaeth athrawon ac arweinwyr, llwyth gwaith, a DPP. O ran gwobrwyo athrawon dosbarth, trafodwyd y disgwylir i lawer o athrawon ymgymryd â chyfrifoldebau arwain ychwanegol i gamu ymlaen yn eu gyrfa, sy'n eu tynnu i ffwrdd oddi wrth yr ystafell ddosbarth. Trafododd sawl bwrdd y model yn Singapore, lle y gall athrawon ddewis rhwng llwybrau gyrfa, fel modd o unioni hyn. Trafododd sawl bwrdd ddefnyddio Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu fel ychwanegiadau cyflog a ph'un a ddylai'r system ymbellhau oddi wrth y strwythur cyflog hwn. Roedd safbwyntiau cymysg ynglŷn â buddion annibyniaeth athrawon, a nododd rhai cyfranogwyr fod ffactorau strwythurol (e.e. strwythurau arholiadau) yn golygu bod rhai astudiaethau achos yn llai perthnasol. Yn olaf, nododd sawl cyfranogwr fod llwyth gwaith uchel athrawon yng Nghymru yn golygu bod ganddynt lai o gyfleoedd i ymgymryd â DPP a bod ganddynt amser annigonol i gynllunio, paratoi ac asesu.

Yn yr ail sesiwn drafod ynglŷn â ffactorau sy'n effeithio ar amodau ehangach athrawon ac arweinwyr, trafodwyd yr holl bynciau o fewn y cwestiwn annog. O ran llwyth gwaith, cytunodd yr holl fyrddau fod gan athrawon ac arweinwyr yng Nghymru lwythi gwaith uchel, ond roedd ganddynt safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn. Mynegwyd safbwyntiau cymysg ar draws gwahanol sefydliadau ynglŷn â faint o annibyniaeth y dylid ei rhoi i athrawon ac arweinwyr ysgolion, a'r ffordd orau o gydbwyso annibyniaeth â chysondeb. Nododd yr holl fyrddau a drafododd natur wledig yr heriau unigryw sy'n wynebu ysgolion gwledig, a chynigiwyd gwahanol awgrymiadau ynglŷn â'r ffordd orau o'u cefnogi. Wrth drafod addysg ddwyieithog a Chymraeg 2050, y thema a drafodwyd fwyaf oedd recriwtio athrawon sy'n siarad Cymraeg. Yn olaf, cytunwyd y dylai contractau cyfnod penodol gael eu defnyddio'n achlysurol, ac mewn sefyllfaoedd penodol yn unig.

+44 20 8133 3192 43 Tanner Street, SE1 3PL, Llundain, UK
+30 21 2104 7902 Ifigenias 9, 14231, Athens, GR

Hawlfraint © 2023 Cedwir pob hawl
Rhif Cwmni 09391354, Rhif TAW GB208923405, Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr

LinkedIn company/alma-economics X almaeconomics

alma economics